*Mae’r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 16**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ebrill 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc i’r Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens** |
| Pwnc | **Penodi Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Argymell bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn penodi David Davies i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r Awdurdod benodi Aelodau Annibynnol i'w Bwyllgor Safonau. Mae'r rhain yn bobl heb unrhyw gysylltiad â gwleidyddiaeth na'r awdurdod sy'n cael eu cyfethol i'r Awdurdod. Roedd angen dau Aelod Annibynnol ar yr Awdurdod ac mae wedi cynnal ymarfer recriwtio agored i ddewis ymgeiswyr addas.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod Aelodau:

- **i) Yn penodi David Davies am gyfnod o bedair blynedd o 20 Ebrill 2026 ymlaen; ac**
- **ii) Yn diolch i Julia Hughes a Sally Ellis am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.**

**CEFNDIR**

4 Mae gan yr Awdurdod Bwyllgor Safonau sefydledig. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys chwe aelod, y mae pedwar ohonyn nhw’n Aelodau Annibynnol a dau’n gynrychiolwyr o'r Awdurdod. Mae Aelodau Annibynnol yn bobl nad ydynt yn gynghorwyr nac yn swyddog gyda'r Awdurdod nac unrhyw awdurdod lleol arall. Mae pobl sydd wedi bod yn gynghorwyr neu'n swyddogion yn y gorffennol yn gallu gwasanaethu fel Aelodau Annibynnol ar ôl i gyfnod o 2 flynedd o leiaf fynd heibio. Mae hyd y cyfnod hwnnw’n hirach os yw'r person wedi dal swydd uwch mewn awdurdod lleol.

5 Mae Julia Hughes a Sally Ellis wedi gwasanaethu fel Aelodau Annibynnol ers 1 Medi 2019. Nhw yw Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd presennol y pwyllgor. Maent wedi gwasanaethu am ddau dymor yn y swydd ac felly ni ellir eu hailbenodi. Felly roedd angen i'r Awdurdod recriwtio aelodau i gymryd eu lle.

6 Mae deddfwriaeth fanwl yn llywodraethu recriwtio Aelodau Annibynnol.

**GWYBODAETH**

7 Hysbysebwyd y swyddi gwag yn y North Wales Chronicle (sy'n gwasanaethu Bangor, Caernarfon a'r ardaloedd cyfagos), y Journal (sy'n gwasanaethu Rhyl, Prestatyn, Abergele a'r ardaloedd cyfagos), Denbighshire Free Press (sy'n gwasanaethu Sir Ddinbych, Yr Wyddgrug a'r ardaloedd cyfagos), a'r Wrexham Leader (yn gwasanaethu Wrecsam a'r ardaloedd cyfagos) yn ogystal ag ar wefan yr Awdurdod. Fe'u dosbarthwyd hefyd i Swyddogion Monitro a'u postio ar wefannau cyfryngau cymdeithasol yn ystod mis Tachwedd 2025. Derbyniwyd pum cais mewn ymateb i'r hysbyseb, ac roedd pedwar ohonynt ar y rhestr fer.

8 Ar 26 Mawrth cyfarfu panel cyfweld i gyfweld â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer. Cefnogwyd y panel gan y Clerc, Gareth Owens a Louise McCabe-Allen, Dirprwy Bennaeth AD. Roedd yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Dylan Rees | Cadeirydd yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol |
| Y Cynghorydd Gareth Sandilands | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio |
| Sally Ellis | Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| Gareth Pritchard | Aelod o'r Pwyllgor Safonau |
| Noela Jones | Person lleyg |

9 Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y Panel yn fanwl rinweddau a chryfderau'r pedwar ymgeisydd a daeth i'r casgliad bod David Davies.

10 Mae'r Panel yn argymell bod yr Awdurdod yn penodi David Davies yn weithredol o 20 Ebrill 2026 ar gyfer yr uchafswm tymor cyntaf a ganiateir o chwe blynedd.

11 Dyma fydd aelodaeth y Pwyllgor a'r cyfnodau y byddant yn eu swydd:

**Aelodau Annibynnol**

| | |
|---|---|
| Gill Murgatroyd | 01/09/19 - 31/08/27 (ail dymor) |
| Gareth Pritchard | 01/09/19 - 31/08/27 (ail dymor) |
| David Davies | 20/04/26 – 19/04/32 |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub**

Y Cyng Brynmor Hughes 07/06/2022 – 10/05/2027

Y Cyng Ian Hodge 20/05/2025 – 10/05/2027

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |